**P-06-1247 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Mark Hooper, ar ôl casglu cyfanswm o 1,619 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Mae symud i wythnos waith pedwar diwrnod yn rhoi hwb i gynhyrchiant a lles gweithwyr.
Ar ôl treialon llwyddiannus o wythnos waith fyrrach yng Ngwlad yr Iâ – heb ostyngiad mewn cyflogau – mae llywodraethau yn yr Alban, Iwerddon a Sbaen i gyd yn datblygu eu cynlluniau peilot eu hunain ar gyfer wythnos waith pedwar diwrnod, a fydd yn dechrau'r flwyddyn nesaf. Mae gwaith o ddifrif yn cael ei wneud i symud tuag at wythnos waith pedwar diwrnod yng Ngwlad Belg, Seland Newydd, yr Almaen a Siapan hefyd.
Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i arwain y ffordd drwy gefnogi treialon wythnos waith pedwar diwrnod yng Nghymru.

**Gwybodaeth Ychwanegol**:
Pan dreialodd Microsoft wythnos pedwar diwrnod heb ostyngiad mewn cyflogau yn eu swyddfa yn Japan, cafwyd cynnydd o 40 y cant mewn cynhyrchiant.
(https://www.theguardian.com/technology/2019/nov/04/microsoft-japan-four-day-work-week-productivity)
Yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, roedd 55 y cant o'r holl ddiwrnodau salwch a gymerwyd y llynedd yn ganlyniad uniongyrchol i straen, iselder neu orbryder mewn perthynas â gwaith. Byddai symud i wythnos waith pedwar diwrnod yn arwain at leihad dramatig mewn problemau iechyd meddwl yng Nghymru.
Canfu astudiaeth gan y sefydliad amgylcheddol Platform London y byddai cyflwyno wythnos waith pedwar diwrnod heb ostyngiad mewn cyflogau yn arwain at leihad o 127 miliwn o dunelli mewn allyriadau carbon y DU, gostyngiad o fwy nag 20 y cant.

(https://www.theguardian.com/environment/2021/may/27/four-day-working-week-would-slash-uk-carbon-footprint-report)
Wythnos waith pedwar diwrnod yn ‘llwyddiant ysgubol’ yng Ngwlad yr Iâ https://www.bbc.com/news/business-57724779.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru